

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

### 1af Tachwedd, 2016

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, , Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alwyn Roberts,

1642 Wrth groesawu pawb, estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes iawn i Alwyn E Jones i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn a diolchodd iddo am ei barodrwydd i weithio dros y gymuned.

1643 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1644 Nid oedd datganiadau buddiant.

1645 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 4ydd 2016.

#### **1646 Materion y Clerc:**

- i. Derbyniwyd ymateb gan Adran y Cefnffyrdd ar adroddiad CNC ar fesurau i leihau llifogydd ar yr Afon Lliw. Roedd yn cyfeirio'r Cyngor at Lywodraeth Cymru. Nid oes ateb wedi dod i'n gohebiaeth hyd yn hyn oddi wrth yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Cytunwyd i anfon at Keith Iveson am gopi meddal o'r Adroddiad er mwyn ei anfon i sylw Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd a'r Aelodau Cynulliad Rhanbarthol i ofyn am y camau nesaf i'w cymryd i ddatrys y broblem o lifogydd yn cau'r A490.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod Un Llais Cymru wedi casglu tystiolaeth gan nifer fawr o gynghorau am y problemau gyda'r Archwilwyr Allanol eleni; byddant yn trafod y cwynion gyda Swyddfa Archwilio Cymru.
- iii. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r cais am bresenoldeb Wardeiniaid Parcio yn Llanuwchllyn.
- iv. Cyhoeddwyd fod Euros Roberts wedi cytuno i fod yn un o'r pedwar Ymddiriedolwr Elusen Maurice Vaughan a chymeradwywyd ei apwyntiad.
- v. Cyfeiriwyd at y cyfarfod i drafod gwella trefniadau Triathlon yn Y Bala. Gan nad oedd wedi bod yn bosib i neb o Lanuwchllyn fynychu'r cyfarfod hwn, cytunwyd i ofyn a fyddai George Watson yn barod i fynychu cyfarfod o'r Cyngor. Cytunodd y Cadeirydd i holi barn busnesau lleol.
- vi. Adolygwyd ac uwchraddiwyd Cofrestr Buddiannau'r Cynghorwyr.

**1647 Adroddiad y Cyngorydd Sir:** Rhoddodd Alan Jones Evans trosolwg o ymateb pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd i gynlluniau i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae llawer iawn o'r argymhellion sydd yn berthnasol i Awdurdodau Lleol eisoes yn cael eu gweithredu yng Ngwynedd. Cyngor Gwynedd a gychwynnodd y

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

Siarter laith i ddisgyblion ac mae'n destun balchder ei fod yn cael ei gymeradwyo i'w fabwysiadu trwy Gymru.

Adroddodd fod y goeden beryglus yng Nghynllwyd wedi ei chwmpo. Disgwylir i'r Asiantaeth Cefnffyrdd gwneud asesiad gyda camera i gwlfert y Lôn er mwyn agor y cwlffert wrth y lloches bws.

**1648 Adroddiad yr Is-Bwyllgor Cyllid** Derbyniwyd yr Adroddiad yn ei grynswth. Cytunwyd ar y Rheolau Ariannol, yr Asesiad o Risgiau Ariannol, Ffioedd y Fynwent, Cyflogau, Y Gyllideb a'r Praesept ar gyfer 2017-18 (cadw'r un fath a llynedd). Gadawodd y swyddogion y cyfarfod pan drafodwyd mater cyflogau.

**1649** Diolchwyd i Karl Jones am ei adroddiad ar osod goleuadau sy'n fflachio a chytunwyd eu bod yn llawer rhy gostus i'w prynu a'u cynnal. Trafodwyd mesurau eraill i wella diogelwch wrth y neuadd a chytunwyd i ofyn i'r Ysgol Feithrin a fyddent yn holi Mudiad Ysgolion Meithrin am esiamplau o arfer da mewn ardaloedd eraill i sicrhau diogelwch. Cytunodd Alwyn Jones i chwilio mewn i'r syniadau a all fod ar gael gan Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

**1650** Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o'r cyfarfod (13/10/16) ar effaith economaidd y datblygiadau yn yr orsaf.

**1651** Diolchwyd i Arwel Lloyd Jones, y Swyddogion, Merched y Wawr a Sefydliad y Merched am drefnu Noson Goffi ardderchog gyda'r consuriwyr yn diddanu oedolion yn ogystal â phlant. Llwyddwyd i godi o gwmpas £450 tuag at Ambiwllans Awyr Gogledd Cymru.

**1652 Materion Eiddo'r Cyngor:** Y Fynwent – diolchwyd i deuluoedd am gytuno i symud planhigion ac addurniadau oddi ar feddau.

**1653 Materion ariannol:** Cytunwyd i wneud taliadau'r mis: Costau teithio'r Clerc i Gynhadledd Llandudno a thâl aelodaeth SLCC (rhannu gyda'r Bala).

### **1654 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw swyddogion at y sefyllfa beryglus oherwydd ffos wrth Deildre Uchaf.

Cytunodd Alan Jones Evans i atgoffa'r Adran berthnasol am yr angen i wagio biniau'r fynwent. Cytunwyd mai bin gwyrdd sydd ei angen yno yn hytrach nag un brown, oherwydd nad ydyw'n bosib ail gylchu llawer o'r cynnwys.

Deallwyd fod Dŵr Cymru wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw am gau'r ffordd i Gynllwyd mewn camgymeriad. Cytunwyd i nodi hyn rhag ofn y bydd Dŵr Cymru yn cam-arwain y trigolion yn y dyfodol.

Adroddwyd fod ffordd Cynllwyd yn cael ei disgrifio ar wefan i feicwyr fel un heb fawr o drafnidiaeth. Cytunwyd i geisio newid y disgrifiad hwn er diogelwch beicwyr a gyrwyr.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

Rhybuddiwyd fod yr ardal yn cael ei thargedu gan alwadau ffôn yn holi am fanylion cyfrifon; y neges ydyw peidio rhoi manylion dros y ffôn hyd yn oed pan fyddant yn ymddangos yn alwadau dilys.

**1655 Partneriaeth Penllyn:** adroddodd y cynrychiolwyr fod y Cydlynnydd yn ymddeol o'i swydd. Mae cais i drosglwyddo'r Henblas i feddiant Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf gystal â bod yn barod. Mae cais y Bartneriaeth i fod yn rhan o brosiect Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod yn llwyddiannus a bydd cymorth ar gael i ymgymryd â mwy o waith ar ran Cyngor Gwynedd. Trefnwyd cyfarfod i'r sector hunangyflogedig wybod am gefnogaeth sydd ar gael (megis ar gyfer tendro, iechyd a diogelwch ayyb).

Mae'r Bartneriaeth, ar gais cynghorau lleol, wedi bod yn edrych mewn i ddarparu halen i finiau halen yr ardal; disgwylir mwy o wybodaeth am gostau a hyfforddiant gan Gyngor Gwynedd. Cytunwyd i gefnogi ymdrechion Partneriaeth Penllyn mewn egwyddor. Awgrymwyd gellid talu am y gwasanaeth yn ôl y bin. Cytunodd y Cynghorydd Sir holi'r gweithiwr faint o ddefnydd a wneir o'r biniau yn bresennol ac i archebu ar sail y ffeithiau hynny, pe byddid yn symud ymlaen gyda'r cynllun.

Cyflwynodd Mari Jones Williams opsiynau gwahanol ar gyfer parhad "Y Cyfnod".

Cytunwyd i dalu'r ffi flynyddol tuag at weinyddu'r Bartneriaeth. Diochwyd i Alwyn E Jones am ei barodrydd i gynrychioli'r Cyngor ar Bartneriaeth Penllyn.

### 1656 Gohebiaeth:

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Aseiad o fannau agored - cytunwyd i dynnu sylw mai tir a threfniant preifat yw'r cae lle mae pêl droed yn cael ei chwarae.
- 2 Gwynedd:** Derbyniwyd cais i gyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd.
- 3 Eraill:** Trafodwyd hyfforddiant Un Llais Gwynedd 30/11/16 (Heledd Jones, Huw Antur).

Darllenwyd llythyr oddi wrth swyddogion Ysgol O M Edwards yn nodi derbyn enw Alwyn Roberts fel cynrychiolydd y Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethol. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth a drefnwyd i gofio milwyr yr ardal a gollwyd, ac i weddio am heddwch. Nodwyd yr angen am drafodaeth fanwl ar y syniad o leoli'r ysgol feithrin ar gampws yr Ysgol Gynradd.

Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod "Deud eich Deud" a drefnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yng Nghanolfan Hamdden Y Bala 6.30 ar 7/12/16.

Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod Gofal Iechyd yn Nolgellau 17/11/16 am 2.00 a 6.00pm